



CANOLBWYNT CYFLOGAETH
CONWY
EMPLOYMENT HUB

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

MAI 2022

Newyddion y Canolbwynt



CROESO

Doedd y newyddion a gyhoeddwyd yn ddiweddar mo'r hyn yr oedd busnesau a sefydliadau eisiau ei glywed, sef bod mwy o swyddi gwag na phobl sy'n chwilio am waith am y tro cyntaf ers bron i hanner can mlynedd. Er efallai nad yw hyn yn syndod gan ei bod yn amlwg iawn o'r busnesau a oedd yn arddangos yn Ffair Swyddi Conwy fod recriwtio'n broblem barhaus ac i rai, yn fater difrifol erbyn hyn.

Rwy'n eich annog i gyd i lenwi arolwg y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol sydd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i roi dealltwriaeth iddynt o'r heriau a'r problemau yn ogystal â'r cyfleoedd a'r anghenion sgiliau yn y dyfodol i fusnesau yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Dyma'ch cyfle i ddweud eich dweud ond rhaid i chi ymateb erbyn 31 Mai – fe welwch ragor o fanylion ar dudalen xxx

Roedd Ffair Swyddi Conwy, y ffair swyddi ar gyfer pob sector, a drefnwyd gennym yn ddiweddar yn llwyddiant ysgubol gyda dros 70 o fusnesau yn arddangos a thros 170 o bobl yn chwilio am waith. Roedd yr adborth gan y naill a'r llall yn dangos bod angen mawr am y math hwn o ddigwyddiad ar gyfer yr ardal. Felly cadwch lygad am wybodaeth ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol!

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r rhifyn hwn ond mae croeso i chi gysylltu â ni os gallwn eich helpu chi a'ch busnes mewn unrhyw ffordd.

Libby Duo

Libby Duo, Rheolwr Strategol

RHIFYN 2

Uchafbwyntiau'r Newyddlen

Arolwg Sgiliau

—

Llwyddiant Ffair
Swyddi Conwy

—

Cymhorthfa Busnes a
Chyflogaeth

—

Hyder Yn Dy Hun

HELPU I DDYLANWADU AR DDARPARU HYFFORDDIANT A SGILIAU YN Y RHANBARTH

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn rhoi cyfle i bob cyflogwr ddylanwadu ar bolisi a darparu sgiliau yn y rhanbarth.

Comisiynwyd y bartneriaeth gan Lywodraeth Cymru i wneud gwaith ymchwil er mwyn deall heriau, problemau a chyfleoedd busnes o ran sgiliau a chyflogaeth bresennol, yn ogystal ag anghenion sgiliau'r dyfodol.



Os hoffech i'ch llais gael ei glywed ynglŷn â dyfodol sgiliau, hyfforddiant a datblygu'r gweithlu yng Ngogledd Cymru, cwblhewch yr arolwg byr hwn ar-lein yn <https://www.surveymonkey.co.uk/r/265JW3J>

Mae gennych tan ddydd Mawrth 31 Mai am 12pm i ymateb. Ni fydd yn cymryd mwy na 10 munud i'w gwblhau. Bydd eich cyfraniad yn amhrisiadwy wrth gefnogi'r bartneriaeth i nodi blaenoriaethau rhanbarthol a meysydd allweddol i'w datblygu i gefnogi eich anghenion busnes.

YMESTYN EIN CYRRAEDD

Rydym wedi cael darlledu eitem yn rheolaidd ar Gyflogadwyedd ar Radio Sain 103.1 ers tro ac mae wedi bod mor llwyddiannus fel ein bod bellach yn darlledu'n ehangach, gellir ein clywed ar Bayside Radio ar foreau Mercher.

Mae'r ddwy orsaf radio yn ein galluogi i gyrraedd calon ein cymuned gyda Sound Radio yn darlledu i Ddwyrain Conwy a'r llain arfordirol rhwng Conwy a Sir Ddinbych, Bayside Radio a darlledu i Fae Colwyn, Llandudno, Conwy a Llanrwst.

Hoffech chi ymuno â ni ar yr awyr?

We Gwahoddir gwesteion yn rheolaidd i siarad am eu diwydiant a'r cyfleoedd sydd ganddynt felly os byddai gennych ddiddordeb mewn cael sgwrs ysgafn ar yr awyr ac elwa o rywfaint o gyhoeddusrwydd am ddim, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost atom yn CEH@conwy.gov.uk.



FFAIR SWYDDI CONWY YN LLWYDDIANT YSGUBOL

Cynhaliwyd Ffair Swyddi gyntaf Conwy yn yr Ysgubor, Canolfan Ddigwyddiadau Eirias ym Mae Colwyn ddydd Iau 12 Mai ac mae wedi cael ei gydnabod fel llwyddiant ysgubol.

Trefnwyd y digwyddiad gennym mewn partneriaeth â Cymru'n Gweithio a weithredir gan Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chymorth Busnes Conwy. Daeth dros 70 o fusnesau a sefydliadau ynghyd i hyrwyddo cyfleoedd recriwtio a hyfforddi i dros 170 o bobl oedd yn chwilio am waith a phobl â diddordeb mewn cyrsiau hyfforddi a phrentisiaethau.

Roedd hon yn ffair swyddi amlsector felly yn ogystal â chael arddangoswyr o'r lluoedd arfog, y gwasanaethau brys a'r bwrdd iechyd, roedd nifer fawr o fusnesau hefyd o'r sectorau lletygarwch, twristiaeth, teithio, elusennau, darparwyr gwasanaethau, technoleg a gofal yn ogystal ag arddangoswyr o golegau a chwmnïau hyfforddi.

Meddai Libby Duo, Rheolwr Strategol y Ganolfan; "Roedd hwn yn gyfle i dynnu sylw at y nifer fawr o swyddi sy'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd yng Nghonwy a'r cyffiniau. Roeddem wrth ein bodd bod cynifer o gyflogwyr wedi manteisio ar y cyfle hwn i arddangos nid yn unig yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig, ond hefyd y gyrfaedd amrywiol y gall y sectorau allweddol hyn eu cynnig."

Cafodd y digwyddiad ei gynnal rhwng 2pm a 7pm a'i ymestyn ar ôl oriau swyddfa swyddogol, oedd yn fanteisiol gan fod llawer o'r rhai oedd yn chwilio am swydd newydd neu hyd yn oed newid gyrfa ochr yn ochr â llawer o fyfyrwyr chweched dosbarth yn gallu galw heibio.

Cyflwynodd Cymru'n Gweithio weithdai yn ystod y digwyddiad ar Sut i Ysgrifennu CV gyda Chynghorion Da, a Sut i greu argraff mewn Cyfweiliadau gyda Chynghorion Da. Daeth nifer dda i'r gweithdai hyn ac roedd ein mentoriaid a'n cynghorwyr ynghyd â Chymru'n Gweithio wrth law ar ôl y sesiynau i gynnig cyngor a chymorth yn ôl yr angen.



Parhad ar y dudalen nesaf ...

Robin Millar AS Ceidwadol Aberconwy; Lynne Moore, Arweinydd Gwasanaeth y Ganolfan Byd Gwaith Gogledd Cymru; Libby Duo, Rheolwr Strategol Canolfan Gyflogaeth Conwy; Sam Chadburn, Rheolwr Partneriaethau Cyflogwr Adran Gwaith a Phensiynau Conwy a David Jones AS Ceidwadol Gorllewin Clwyd.

Canolbwynt Cyflogaeth Conwy

01492 575578, ccc@conwy.gov.uk, www.conwy.gov.uk/canolbwyntcyflogaethconwy

Roedd yr adborth gan y sefydliadau a oedd yn arddangos yn gadarnhaol iawn, gydag 87% yn dweud bod y digwyddiad yn "dda iawn/rhagorol". Ychwanegodd un cwmni "Roedd y digwyddiad yn ardderchog ac roedd nifer gyson yn bresennol drwyddi draw" a dywedodd un arall; "Roedd yn ddigwyddiad rhagorol gydag amrywiaeth da o sefydliadau yn bresennol". Roedd adborth gan y bobl oedd yn chwilio am waith yr un mor ganmoliaethus gyda 95% yn dweud bod y digwyddiad yn "dda iawn/rhagorol".

Daeth Libby i'r casgliad: "Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl fusnesau a fu'n arddangos yn ogystal â'n partneriaid - Cymru'n Gweithio, Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chymorth Busnes Conwy – am eu cefnogaeth i drefnu digwyddiad mor llwyddiannus."



Y GRONFA ADNEWYDDU CYMUNEDOL YN CAEL EI HYMESTYN AM CHWE MIS

Roedd cais y Gronfa Adnewyddu Cymunedol a sicrhawyd gennym y llynedd i fod i ddod i ben ym mis Mehefin, ond mae wedi'i ymestyn gan Lywodraeth y DU tan ddiwedd mis Rhagfyr. Mae hyn yn newyddion gwybodus gan y gallwn barhau i adeiladu ar ein cyrsiau hyfforddi Llwybr Llwyddiannus, gan gyflwyno amrywiaeth o gyrsiau i bobl ifanc.

Mae'r pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar y farchnad ieuencid gan arwain at lawer ohonynt yn ymddieithrio. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar nifer o gyrsiau gan gynnwys crefft ymladd a hunanamddiffyn a fydd yn apelio at bobl ifanc o dan 25 oed, ac yn ennyn eu diddordeb. Byddwn yn dod â mwy o newyddion i chi am hyn yn y rhifyn nesaf.

YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu llacio, rydym wedi bod yn brysur yn cynllunio i ailgychwyn ein rhaglen ymgysylltu â'r gymuned.

Mae cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb a bod wrth wraidd y gymuned yn agwedd sylfaenol ar ein gwaith a'r gefnogaeth a gynigiwn i helpu'r rhai sy'n ddi-waith i gael gwaith, neu roi'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i weithio.

O fis Mehefin ymlaen, bydd ein mentoriaid a'n cynghorwyr yn cynnal sesiynau galw heibio wythnosol yng Nghanolfan Ieuentid a Chymuned Llanddulas, Llyfrgell Penmaenmawr, Llyfrgell Bae Cinmel, Canolfan Dinorben, Llyfrgell Llanfairfechan, Canolfan Ddiwylliant Conwy, Canolfan Gymunedol Tŷ Llewellyn, Neuadd y Dref Bae Colwyn, Canolfan Dewi Sant, Tŷ Hapus a Llyfrgell Llandudno.

Mae rhagor o fanylion am bob un o'r sesiynau i'w gweld ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

CYMHORTHFA BUSNES A CHYFLOGAETH

Ydych chi'n fusnes sydd angen cymorth cyffredinol, help i ddod o hyd i grantiau, neu eisiau recriwtio staff newydd?

Ydych chi'n chwilio am gyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant?

Mae ein Cymhorthfa Busnes a Chyflogaeth yn cynnig cyngor diduedd am ddim ar nifer eang o bynciau yn ogystal â chymorth i bobl sy'n awyddus i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy.

Cynhelir ein cymorthfeydd bob dydd Mawrth* rhwng 10am a 2pm ar hyn o bryd yn M-Sparc Ar y Lôn, 31 Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AA.

Bydd ein cynghorwyr cyfeillgar, Clare a Leila yno i ateb unrhyw un o'ch cwestiynau ac i helpu eich arwain i'r cyfeiriad cywir.

Bydd ein cynghorwyr cyfeillgar, Clare a Leila yno i ateb unrhyw un o'ch cwestiynau ac i helpu eich arwain i'r cyfeiriad cywir.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i <https://bit.ly/CymhorthfaBus>



Leila a Clare

**Cynhelir cymorthfeydd yn ystod y tymor yn unig.*

HYDER YN DY HUN

Mae Hyder Yn Dy Hun yn un o'n prosiectau a ariennir gan CRF. Mae hwn yn brosiect cymorth cyn cyflogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar gryfderau gyda ffocws ar leihau unigedd cymdeithasol, meithrin gwydnwch a gwella hyder/hunan-barch. Ei nod yw gwella iechyd corfforol a meddyliol drwy gael mynediad at weithgareddau adeiladu tîm awyr agored ochr yn ochr â gweithgareddau ychwanegol a chymorth mentora un i un, yn ogystal â helpu i ddatblygu sgiliau meddal, ymarferol, ariannol, digidol a chyflogadwyedd, ochr yn ochr â lleoliadau gwirfoddoli ac ennill cymwysterau newydd.

O'r diwrnod cyntaf, mae'r rhai a gofrestrodd ar y prosiect wedi gallu ei wneud ar eu cyflymder eu hunain.

Roedd llawer yn cydnabod bod angen mwy o gefnogaeth arnynt ar y dechrau. Cofrestrodd y rhai hynny ar sesiynau Hyder a Lles wythnosol y prosiect a gynhaliwyd gan Goleg Llandrillo. Roedd y sesiynau, a gynhaliwyd ddwywaith yr wythnos, yn canolbwyntio ar adeiladu hunan-wydnwch, gwella cyfathrebu a datblygu hunanwerth gan helpu'r cyfranogwr i ddeall ystyr lles yn well.

Roedd rhai o'r cyfranogwyr wedi'u hynysu'n ddigidol ac mewn partneriaeth â Chymuned Ddigidol Cymru roeddem yn gallu rhoi mynediad i'r rhyngwyd iddynt cyn eu cofrestru ar Gwrs Cynhwysiant Digidol a gynhaliwyd gan Goleg Llandrillo. Roedd y cwrs yn ymdrin â'r holl hanfodion o ddefnyddio cyfrifiadur i fynd ar-lein, defnyddio e-bost a gallu chwilio am swyddi a gwneud cais amdanynt.

Mae'r prosiect hefyd wedi cynnal Gweithgareddau Dewr. Dechreuodd y rhain yn araf gyda gweithgareddau awyr agored Treftadaeth Cymru o amgylch Conwy a gynhaliwyd gan Fusion, a gweithgareddau garddio a gynhaliwyd gan Incredible Edible yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy lle bu'r cyfranogwyr yn helpu gyda'r ardd fwydadwy/synhwyraidd gan ddysgu sut i botio hadau a chymryd toriadau. Aeth llawer ohonynt â nhw adref i edrych ar eu holau. Yna aethant ymlaen i Gyfeiriannu a mynd ar e-feiciau o amgylch Bodlondeb yng Nghonwy i weithgareddau mwy dewr yn Antur Parc Eryri gan gynnwys mynd ar wifrau gwib, Padlfyrddio a'r Cwrs Rhwystrau dan do lle bu'n rhaid i'r tîm gydweithio i annog a chefnogi ei gilydd i gymryd naid enfawr neu obeithio'r gorau – cryn gamp o ystyried bod rhai o'r garfan ar y dechrau yn ei chael hi'n anodd iawn siarad ag unrhyw un!

Caiff Hyder Yn Dy Hun ei gynnal gan ein Rheolwr Prosiect Mel Davis sy'n egluro: "Roedd pump yn cymryd rhan yn y Gweithgaredd Dewr cyntaf ond wrth i'r amserlen fynd rhagddi ac wrth i hyder y cyfranogwyr dyfu mae mwy a mwy yn cofrestru. Felly ar gyfartaledd mae gennym tua 14 ym mhob gweithgaredd. Mae ambell un yn dal i ddod draw i wyllo ond maent yno oherwydd y cyfeillgarwch a'r ysbryd tîm sydd wedi datblygu.

Parhad ar y dudalen nesaf ...



Ymysg y sesiynau eraill cynhaliwyd Cwrs Ysgrifennu Creadigol a gynhelir gan Phil Bowen, bardd, dramodydd ac awdur a sesiwn cerfio llwyau yn Neuadd Hendre, sydd, er bod sawl un wedi torri eu bys, wedi bod yn gymaint o lwyddiant fel bod y niferoedd ar gyfer y sesiwn nesaf yn uwch nag erioed.



Hyd yma, mae gan Mel 41 o bobl wedi'u cofrestru ar y prosiect, ac mae 20 yn aros i gael eu cofrestru. Mae tri chyfranogwr wedi dechrau gweithio ac mae dau wedi sicrhau lleoliadau gwirfoddoli. Targed y Llywodraeth oedd 30 o gofrestriadau. Cyrhaeddodd Mel y targed yn y ddau fis cyntaf felly gyda saith mis yn dal ar ôl, mae'n ddiogel dweud bod Hyder Yn Dy Hun yn llwyddiant eithriadol!



TAITH GERDDED LLES

Cyfarfu rhai o'n tîm am daith gerdded gyflym ar hyd promenâd Bae Colwyn ddydd Gwener 20 Mai i gymryd rhan yn ein Taith Gerdded Lles fisol a ddaeth i ben gyda Brecinio iach a haeddiannol ym Mryn Williams ym Mhorth Eirias.

Dechreuodd y teithiau cerdded hyn ar ôl y cyfyngiadau symud ac roeddent yn gyfle gwych i dîm Hwb Cyflogaeth Conwy gynnal ysbryd y tîm a rhoi cyfle i sgwrsio am waith yn ddiogel pan na oedd cyfarfod yn y swyddfa wedi'i wahardd. I lawer, roedd hefyd yn eu helpu i gyrraedd eu 10,000 o gamau y dydd!



Daw'r newyddlen hon o restr bostio. Os dymunwch ddad-danysgrifio, [cliciwch yma](#) a theipiwch 'unsubscribe' yn y blwch 'Subject' a byddwn yn dileu eich manylion ar unwaith.